

<b>Adroddiad i'r:</b>	Cabinet
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	28 Mehefin 2022
<b>Aelod Arweiniol</b>	Y Cyng. Jason McLellan, Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Mynd i'r Afael ag Amddifadedd
<b>Awdur yr Adroddiad</b>	Emlyn Jones, Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad
<b>Teitl</b>	Cymeradwyo Cais Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU – Etholaeth Gorllewin Clwyd

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â Rownd 2 ceisiadau i Gronfa Codi'r Gwastad (CCG) Llywodraeth y DU yn ymwneud ag Etholaeth Gorllewin Clwyd

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Daethpwyd ag adroddiad blaenorol (gweler Atodiad 1) i'r Cabinet ar 21 Tachwedd 2021 i ofyn am benderfyniad i roi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Swyddog Gweithredol a Phennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151, Swyddog Monitro a'r Arweinydd, i gytuno i gyflwyno'r cais Codi'r Gwastad i Lywodraeth y DU, mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC), ar gyfer etholaeth Gorllewin Clwyd. Bu i'r Cabinet gytuno i hyn.
- 2.2. Fodd bynnag, oherwydd newid mewn amgylchiadau yn dilyn cyngor gan y Swyddog Monitro, bellach mae angen cefnogaeth y Cabinet i CSDd gyflwyno eu cais eu hunain yn hytrach na chais ar y cyd gyda CBSC.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

- 3.1. Mae'r Cabinet yn cadarnhau ei gefnogaeth i'r prosiectau arfaethedig a gefnogwyd yn flaenorol gan y Cabinet a gwerth dangosol eang bob prosiect.

3.2. Bod y Cabinet yn rhoi awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Prif Weithredwr a Phennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151, Pennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd a'r Arweinydd, i fireinio'r prosiectau a'r costau cysylltiedig yn ôl yr angen a chytuno i Gyngor Sir Ddinbych gyflwyno cais i Lywodraeth y DU, mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ar gyfer etholaeth Gorllewin Clwyd.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae'r Cabinet yn flaenrol wedi cefnogi cyflwyno'r cais Codi'r Gwastad i Lywodraeth y DU, mewn partneriaeth â CBSC, ar gyfer etholaeth Gorllewin Clwyd. Mae'r cais a'r prosiectau ynddo wedi eu dewis a'u datblygu yn dilyn ymgysylltiad agos ag Aelodau Lleol a Chyngor Tref Rhuthun.

4.2. Aethpwyd a'r adroddiad hwnnw i'r Cabinet ar 21 Tachwedd 2021 ac mae ynghlwm fel **Atodiad 1** ar gyfer gwybodaeth gefndir.

4.3. Bu i ganllawiau CCG Llywodraeth y DU nodi bryd hynny, pan fo etholaeth yn croesi Awdurdodau Lleol niferus, y dylent gydweithio i ddatblygu cais ar y cyd ond y dylai un ALI gymryd cyfrifoldeb fel arweinydd y cais. Mewn perthynas â Gorllewin Clwyd, cytunwyd ar gais ar y cyd gyda CBSC, gyda CBSC yn gweithredu fel yr awdurdod arweiniol.

4.4. Bu i'r Cabinet gytuno i gyflwyno'r cais ar y sail hon ar 21 Tachwedd 2021.

4.5. Nid yw'r prosiectau arfaethedig a oedd yn yr adroddiad hwnnw wedi newid, ac maent fel a ganlyn:

- Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun - Parth Cyhoeddus
- Tŵr cloc Sgwâr Sant Pedr - gwaith adfer
- Carchar Rhuthun/46 Stryd Clwyd - mynedfa newydd/man arddangos ac adfer y sied arfau.
- Nant Clwyd y Dre - Adain y Gorllewin ac adfer y gasebo
- Cae Ddol - gwelliannau mannau gwyrdd
- Cyfleusterau arlwy Moel Famau - cyfleusterau arlwy a thoiledau newydd
- Llwybrau beicio/cerdded Moel Famau - ffurfioli cylch llwybr/beicio newydd
- Adeilad Loggerheads - gwella'r cyfleusterau trwy'r adeilad a gwaith atal llifogydd allanol
- Ysgol Bryneglwys - adnewyddu canolbwynt cymunedol
- Gwyddelwern - canolfan gymunedol newydd

4.6. Ers y dyddiad hwnnw mae CSDd wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â CBSC i ddatblygu cais ar y cyd, gan gynnwys penodi ymgynghorydd ar y cyd i gefnogi'r cais.

4.7. Ar 23 Mawrth 2022 cyhoeddodd Llywodraeth y DU Rownd 2 CCG. Darparwyd canllawiau diwygiedig ac wedi eu diweddarau i Awdurdodau Lleol.

4.8. Bu i Lywodraeth y DU gadarnhau'r canlynol.

6 Gorffennaf 2022 - dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yn Rownd 2 CCG.

31 Mawrth 2025 - dylai arian CCG fod wedi ei ymrwymo a'i wario.

4.9. Un newid bach, ond allweddol, i feini prawf CCG ar gyfer ceisiadau Rownd 2 oedd mewn perthynas ag etholaeth sy'n croesi mwy nag un Awdurdod Lleol h.y. Gorllewin Clwyd. Roedd y meini prawf blaenorol yn caniatáu **un cais ar y cyd** yn yr amgylchiadau hyn, mae'r canllawiau diwygiedig ar gyfer Rownd 2 yn nodi y gellir cyflwyno **cais gan bob ALI** sy'n croesi ffin etholaeth. Ar gyfer Gorllewin Clwyd roedd hyn yn golygu un cais gan CSDd a CBSC.

4.10. Ddiwedd Ebrill dywedodd CBSC wrth CSDd eu bod yn ystyried tynnu'n ôl o'r cais ar y cyd er mwyn cyflwyno cais eu hunain.

4.11. Mae nifer o gyfarfodydd wedi eu cynnal rhwng uwch swyddogion a David Jones AS i drafod newid arfaethedig CBSC. Yn ddiweddar mae Prif Weithredwr ac Arweinydd y ddau Gyngor hefyd wedi cyfarfod gyda David Jones AS i drafod materion.

4.12. Nid yw'n hollol glir pam fod CBSC yn dymuno cyflwyno eu cais eu hunain, fodd bynnag, mae'n amlwg mai dyma sut maent yn dymuno symud ymlaen. Tra bod CSDd yn derbyn bod CBSC yn gallu cyflwyno eu cais eu hunain roedd CSDd yn dymuno parhau gyda chais ar y cyd.

4.13. Mae swyddogion a'r ymgynghorwyr yn parhau mor hyderus ag erioed bod elfen a phrosiectau CSDd o fewn cais CCG Gorllewin Clwyd yn parhau i fod yn gryf a chydlynus pe byddai angen cais ein hunain.

4.14. Elfen bwysig o'r cais yw cefnogaeth a 'blaenoriaethu' AS. Bydd David Jones AS yn darparu llythyr o gefnogaeth ar gyfer y ddau gais. Fodd bynnag, gall AS ond

“flaenoriaethu/rhoi prif gefnogaeth” i un cais. Mae hyn yn rhan o'r meini prawf sgorio.

4.15. Mae David Jones AS bellach yn ystyried ei sefyllfa ac wedi gofyn am adroddiad gan CSDd a CBSC yn nodi pam y dylai flaenoriaethu eu cais nhw. Rydym wedi gofyn i David Jones AS adael i ni wybod beth yw ei benderfyniad cyn gynted â phosib.

4.16. Mae Aelodau Lleol Rhuthun wedi eu diweddarau a bu i swyddogion fynychu Grŵp Ardal Aelodau Rhuthun ar 27 Mehefin i roi mwy o fanylion.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Mae'r prosiectau yn y cais yn ceisio cael effaith weledol mewn ardaloedd lleol, yn arbennig yr ardaloedd sydd â'r lefel uchaf o angen. Mae adfywio wrth wraidd y cais, a ble bo modd, ymgorfforir teithio llesol, cysylltiad gwell gyda chanol y dref a datblygu mannau gwyrdd i fod yn hygyrch i bawb yn y cais. Bydd y cynnig felly'n cyfrannu at y polisiâu corfforaethol yn ogystal â darparu buddion i'r gymuned leol.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Darparwyd cyllid galluogi er mwyn galluogi'r ALI i ddatblygu ceisiadau. Bwriedir i weithgareddau'r prosiect alluogi'r ALI i gyflymu rhai o'i gynlluniau arfaethedig ac o ganlyniad, mae'n bosibl y bydd angen adnoddau ychwanegol yn gynt na'r disgwyl. Disgwylir cyllid cyfatebol o 10% i gyd-fynd â'r cais.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1. Mae Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gynnal. Y prif gasgliadau yw, bod nifer o effeithiau cadarnhaol yn ddisgwyliedig, ond o ystyried bod y datblygiad yn ei ddyddiau cynnar, mae cyfle i ymestyn y rhain a lleihau rhai o'r effeithiau negyddol a amlinellwyd drwy gynllunio trylwyr a datrysiadau arfaethedig gan yr arweinwyr prosiect amrywiol a monitro cyffredinol. Mae'n bwysig nodi y bydd gwaith ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned yn parhau ac yn cael ei ddatblygu ymhellach wrth i'r prosiectau ddatblygu.

## **8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

8.1. Mae ymgynghoriadau wedi cael eu cynnal gyda phob un o'r Grwpiau Ardal yr Aelodau, y Cynghorau Tref, Aelodau unigol ac mae cyfarfodydd wedi cael eu cynnal gyda'r AS, David Jones. Arweinwyr, Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr o CSDd a CBSC.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Mae'r Gronfa Codi'r Gwastad yn ffynhonnell gyllid bwysig i helpu i adfywio'r ardal. Mae llawer o waith ymgynghori wedi cael ei gwblhau gan y tîm er mwyn penderfynu ar y tri chais sydd ar y rhestr bresennol ar gyfer Gorllewin Clwyd. Gallaf gadarnhau y bydd y gofyniad arian cyfatebol ar gael drwy gydol rhaglen y Gronfa Codi'r Gwastad, fodd bynnag, gobeithir y bydd modd cael mynediad at ryw faint ohono gan ffynonellau allanol.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Bydd proses benderfynu gadarn yn ei lle i gymeradwyo'r cais, yn cynnwys cytundeb uwch swyddogion allweddol a'r Arweinydd.

## **11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

11.1. Adran 111, Deddf Llywodraeth Leol 1972 Adran 2, Deddf Llywodraeth Leol 2000 Y pŵer i ymgymryd â gweithgareddau i hyrwyddo lles cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol yr ardal.